

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
<b>DYDDIAD</b>	20/09/2016
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno diweddariad i'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol</li> <li>• Hyrwyddo cyfrifon facebook/Trydar Aelodau etholedig</li> </ul>
<b>AWDUR</b>	Arwel Ellis Jones, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Cydnabyddir fod Cyfryngau Cymdeithasol yn ffordd bwysig iawn o gyfathrebu yn y byd sydd ohoni, ac mewn ymateb i hyn mabwysiadwyd 'Protocol ar y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan Gynghorwyr' eisoes,
- 1.2 Mewn cyfarfod diweddar o Grwp Busnes y Cyngor, trafodwyd y protocol yn sgil ambell ddigwyddiad oedd wedi codi yn ddiweddar yn ymwneud â Chyfryngau Cymdeithasol.
- 1.3 Adnabu'r Arweinwyr Gwleidyddol fod un egwyddor sylfaenol wrth ymdrin ag eraill, boed wyneb yn wyneb neu ar wefannau cymdeithasol, sef dangos parch at eraill.
- 1.4 Er fod hyn wedi ei nodi yn fersiwn wreiddiol y protocol, gwnaethpwyd cais i'w amlygu, fel sydd wedi ei ddangos yn ail fersiwn y protocol sydd ynghlwm yn **Atodiad A**.
- 1.5 Bydd y fersiwn ddiwygiedig o'r protocol yn cael ei gyhoeddi ar safle we'r Cyngor yn dilyn cyfarfod y pwyllgor hwn.

## 2. CYFRIFON FACEBOOK/TRYDAR CYNGHORWYR

- 2.1 Fel mae'r pwyllgor yn ymwybodol, mae'r Cyngor yn cyhoeddi 'tudalen we' bersonol ar gyfer pob aelod, sy'n cynnwys, ymysg pethau eraill, gwybodaeth cyswllt. Nodir (lle'n hysbys)
  - gyfeiriad gohebu,
  - rhif ffon catref,
  - rhif ffon Symudol a
  - chyfeiriad ebost swyddogol 'cynghoryddxxxxx@gwynedd.llyw.cymru'.
- 2.2 Yn ddiweddar, mae un neu ddau o aelodau wedi gofyn os oes posibil cael ychwanegu eu cyfeiriad trydar ac/neu facebook at y manylion hyn, yn ogystal a'i gyhoeddi ar eu cardiau busnes.
- 2.3 Rydym yn ymwybodol fod oddeutu traean o aelodau â chyfrif Trydar (unai fel Cynghorydd xxx neu dim ond eu henwau), a dros hanner yn gwneud defnydd o gyfrif Facebook, eto gyda chyfuniad o rai fel 'Cynghorydd' ac eraill gan ddefnyddio eu henwau yn unig.

2.4 Gwahoddir y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i drafod y buddion a'r risgiau o gyhoeddi gwybodaeth fesul aelod am gyfrifon Trydar/ Facebook ar safle we'r Cyngor ac / neu ar gardiau busnes Cynghorwyr.